# CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

## Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 30ain IONAWR 2018.

**PRESENNOL:**
Cynghorwyr Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mr Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Ian Owen, Mr Einion Parry Williams, Mr John Pritchard a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

**YMDDIHEURIAD:**
Cynghorwyr Ms Linda Jones, Mr Mike Jones & Mr John Pritchard. Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

**1 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.**

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod llawn cyntaf y flwyddyn newydd gan y Cadeirydd.

1.2 Dymunwyd gwellhad buan i Cynghorydd Linda Jones, John Pritchard a Mike Jones.

1.3 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol.**

1.3.1 Datganwyd Diddordeb Personol nad oedd yn Rhagfarnol gan Cynghorydd Carol McGregor fel Trysordd Cangen yr Urdd Gaerwen ac fel aelod o Pwyllgor Neuadd y Bentref ac cymerodd ran yn yr eitem.

1.3.2 Datganwyd Diddordeb Personol nad oedd yn Rhagfarnol gan Cynghorydd Ian Owen fel Cadeirydd Pwyllgor Neuadd y Bentref ac fe cymerodd ran yn yr eitem.

1.3.3 Datganwyd Diddordeb Personol nad oedd yn Rhagfarnol gan Cynghorydd Cynrig Jones pan drafodwyd gorchymyn traffig arfaethedig Stryd y Capel, Gaerwen gan ei fod yn berchenog tŷ ar Ffordd y Capel ac fe cymerodd ran yn yr eitem.

**2 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.**

2.1 Cafwyd adroddiad byr ar lafar gan y Cynghorydd Sirol, Mr Dafydd Roberts yn dilyn Cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyllid sydd wedi penderfynnu codi'r 4% yn y Dreth.

**Arwyddo.....**

## 3 DERBYN COFNODION MISOL Y CYNGOR (28ain Tachwedd 2017).

3.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 24ain Hydref 2017 yn gywir (CM/EPW).

## 4 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

**4.1 Llwybr 16 –** atgoffwyd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda Cyng John Pritchard yn wreiddiol er mwyn darganfod yr union safle sydd angen sylw gwella gwyneb ar hyd darn o'r llwybr. Oherwydd salwch John, gadawyd y mater am y tro.

**4.2 Parcio ger Ty Gwyn – Lon Groes** – trafodwyd y mater yn bellach gan nad oedd unrhyw datblygiad ac fe benderfynwyd adael y mater yn nhwylo Cyng Ian Owen I drafod gyda PCSO Alison Hughes.

**4.3 Safle Gofeb Gaerwen** – roedd y Clerc wedi pasio'r gwybodaeth ymlaen i'r Cynghorydd Sirol Dafydd Roberts a copi arall i'r Adran Priffyrdd ond nid oedd ymateb wedi ei dderbyn eto.

**4.4 Stryd & Theras y Capel, Gaerwen –** roedd y Clerc wedi pasio'r gwybodaeth yma ymlaen hefyd i'r Cynghorydd Sirol a copi arall i'r Adran Priffyrdd ac eto nid oedd ymateb wedi ei dderbyn yn dilyn llythyr anfonwyd ar y 5/12/2016. Mynegwyd siom fawr yr aelodau am nad oedd ymateb wedi ei dderbyn ar faterion pwysig sydd yn effeithio'r pentref. Ond roedd y Clerc wedi derbyn llythyr dyddiedig y 4ydd Ionawr 2018 gyda bwriad y Cyngor Sir o gyflwyno Gorchymyn Traffig Arfaethedig – Stryd y Capel, Gaerwen a gofyn am sylwadau y Cyngor. Penderfynwyd ymateb gan wrthwynebu'r gorchymyn ar y sail ei fod yn anheg i'r busnesau sydd angen defnyddio mynedfa Parc Busnes Gaerwen Uchaf yn ddyddiol ac nid dyma oedd rheswm blaenorol i'r broblem gwreiddiol, hynny yw, cwynio gor-yrru oedd blaenllaw y trigolion.b.

**4.5 Allt Lon Berea –** derbyniwyd cwyn a lluniau yn cadarnhau fod angen sylw i'r gordyfaint ar ffens rhwng ar A5 a Capel Berea ac roedd y Clerc wedi anfon llythyr i'r Adran Briffyrdd gyda dim ymateb ar hyn o bryd.

**4.6 Cais Goleuadau Stryd yn Pentre Berw –** dywedodd y Clerc fod y Cyngor wedi penderfynnu cefnodi'r cais mewn egwyddor o osod rhagor o lampau ar ffyrdd o gwmpas y pentref ac anfon llythyr i'r Adran Briffyrdd y Cyngor Sir yn gofyn iddynt ymweld a'r pentref er mwyn ymateb gyda sylwadau ac unrhyw argymellion a cymorth er mwyn symud y fater yn ei flaen.

**4.7 Gorlifo ger Stad Tyn Rhos –** roedd Cyng Cynrig Jones wedi rhannu'r gwybodaeth gyda Cynghorydd Sirol Dafydd Roberts er mwyn ymweld a'r safle a ceisio darganfod ble roedd y broblem yn tarddu – cafwyd adroddiad fod y mater mewn llaw.

## 5 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

5.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Tachwedd 2017 yn cynnwys cysoniad a datganiad y banc.

**Arwyddo.....**

5.2 **Adroddiad Taliadau & Derbyniadau Mis Rhagfyr 2017 & Mis Ionawr 2018.**
Fe aeth y Clerc drwy taliadau a derbyniadau y Cyngor am mis Rhagfyr 2017 a Mis Ionawr 2018 ac fe cytunwyd i wneud y taliadau yn unfrydol.

**5.3 Rhoddion Blynyddol y Cyngor 2017-2018.**

5.3.1 Cytunwyd wneud cyfraniad £4,500 tuag at costau rhedeg Neuadd y Bentref, Gaerwen. **(s19(3)/LGA1972).**

5.3.2 Cytunwyd wneud cyfraniad £250.00 tuag at Cyngor Ysgol Esceifiog. **(s137/LGA1972).**

5.3.3 Cytunwyd wneud cyfraniad £200.00 tuag at Cangen Urdd y Gaerwen **(s19/LGA1976).**

## 5.4 Priseb y Cyngor am flwyddyn 2018-2019.

5.4.1 Penderfynwyd cyllidebu ar gyfer y canlynol:

5.4.2

| **TALIADAU** | | DERBYNIADAU | |
|---|---|---|---|
| **Caeau Chwarae** | **£5,000.00** | **Priseb Presennol** | **£17,250.00** |
| **Llwybrau** | **£1,500.00** | **TAW** | **£750.00** |
| **Clerc** | **£3,600.00** | **Rhent** | **£261.00** |
| **Yswiriant** | **£1,000.00** | **Grant Llwybrau** | **£1500.00** |
| **Aelodaeth** | **£ 250.00** | | |
| **Gweinyddu** | **£1,500.00** | | |
| **Rhenti** | **£ 262.00** | | |
| **Archwiliad** | **£ 300.00** | | |
| **Rhoddion Blynyddol** | **£6,000.00** | | |
| **CYFANSWM** | **£19,412.00** | **CYFANSWM** | **£19,761.00** |

5.4.3 Dangoswyd dogfen cysoni banc i'r aelodau yn dangos fod gan y Cyngor cyfanswm £12,070 mewn llaw hyd at 31.12.2017 (£6515 Cyfrif Cyffredinol a £5555 yn y Cyfrfif Cadw). Roedd sieciau gwerth £2281 heb fynd drwy'r cyfrif cyffredinol eto a gyda bron £5,000 i ddod allan mewn rhoddion yn ogystal a cyflog y Clerc am weddill y flwyddyn (£1,800) yn erbyn Priseb olaf y flwyddyn (£5,750), Grant Llwybrau (£1,480) ac ad-daliad TAW (£1,470), disgwylir y bydd £6135 yn weddil yn y cyfrif cyffredinol. Hefyd, roedd rhaid nodi fod Cyfrif Cymdeithas Hamdden wedi cau ac fod £3400 wedi ei drosglwyddo yn nol i'r Cyngor ac roedd y Clerc wedi trosglwyddo hwn i'r Cyfrif Cadw.

5.5 O ystyried yr uchod, penderfynwyd yr aelodau o gadw'r priseb at £17,250 yn unfrydol am 2018-2019 ac fod hyn yn ddigonol er mwyn diogelu'r Cyngor rhag unrhyw cost annisgwyl.

5.6 Dywedodd y Clerc fod rhaid i'r Cyngor ystyried penodi Archwiliwr Mewnol newydd yn dilyn ymddeoliad Mr John D Roberts a gofyn i'r Clerc wneud ymholidau priodol.

**Arwyddo.....**

5.7 Penderfynwyd gofyn i Mr O G Jones i gario ymlaen gyda cytundeb y llwybrau.

5.8 Penderfynwyd gofyn i Mr Dafydd Hughes i gario mlaen gyda cytundeb torri y Caeau Chwarae.

5.9 **Archwiliad Blynyddol diweddu 31 Mawrth 2017 –** cyflwynwyd, derbyniwyd ac fe cymeradwyd y ffurflen blynyddol ac nodwyd nad oedd gan y Cyngor cofrestr buddiannau aelodau yn unol a Adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac nad oedd y Clerc yn anfon gwybodaeth amser real at CthEM mewn amser fel cyflogwr.

5.10 **Taliadau Aelodau y Cyngor** – cyflwynwyd dogfen gerbron yr aelodau fod ganddynt yr hawl o dderbyn £150.00 y flwyddyn yn unol a argymellion newydd felad-daliad tuag at eu costau o gario allan dylestwyddau fel Cynghorydd Cymunedol. Ar ol trafodaeth cryno, penderfynwyd yr aelodau yn bresennol i peidio hawlio y swm yma.

## 6 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

6.1 Cais Llawn Codi Fliw To ar adeilad yn: Parc Gwyddoniaeth, Gaerwen.
Rhif Cais: 33C304G/1. **DIM SYLWADAU.**

6.2 Cais Llawn Ymestyn Maes Parcio presennol er mwyn cynnwys 18 lle ychwanegol yn: Parc Gwyddoniaeth, Gaerwen – Rhif Cais: 33C304D/1. **DIM SYLWADAU.**

6.3 Cais Llawn Addasu & Ehangu yn: Collier Bach, Ffordd Caergybi, Pentre Berw, Gaerwen – Rhif Cais: 33C90A. **DIM SYLWADAU.**

6.4 Cais Llawn Adran 37 Deddf Trydan ar gyfer bwriad ail-adeiladu'r llinell drydan gyfredol 33Kv sydd uwchben y ddaear yn: Cors Ddyga i'r Stad Diwydiannol, Gaerwen. Rhif Cais: 33EL1549/E. **DIM SYLWADAU.**

## 7 PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO.

7.1 Cais Llawn Lledu Mynedfa Cerbydau Presennol – Rhif 33C296B
**LLEOLIAD** – Bryn Teg, Pentre Berw, Gaerwen – **CANIATAD.**

**7.2** Cais ol-weithredol codi sied amaethyddol ar gyfer bwyd a peiriannau – Rhif 33C182F.
**LLEOLIAD –** Berw Uchaf, Pentre Berw, Gaerwen – **CANIATAD.**

## 8 MATERION CAEAU CHWARAE.

8.1 DIM MATERION YN CODI.

**Arwyddo.....**

## 9 MATERION LLWYBRAU.

**9.1** Dywedodd Cyng Carol McGregor fod Mr Ted Thomas am arwain hi o gwmpas y llwybrau yn y misoedd nesaf.

9.2 Gorchymyn y Cyngor Sir – Cau Llwybr Troed Rhif 39 Dros Dro am cyfnod o 6 mis oherwydd difrod gorlifo – yn cychwyn ar 21 Rhagfyr 2017.

## 10 MATERION PRIFFYRDD.

**10.1** **Gorchymyn y Cyngor Sir – Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro ( Croesfan Rheilffordd Gaerwen)** am y diwrnod er mwyn gwaith cynnal a chadw – 13 Chwefror 2018.

10.2 Nodwyd fod arwydd ger cylchdro y Parc Gwyddoniaeth wedi disgyn a gofyn i'r Clerc ddod i sylw yr Adran Briffyrdd.

## 11 ADRODDIADAU, YMGYNGHORIADAU & GOHEBIAETH.

**11.1 Cafwyd adroddiad cyfarfod Grwp Rhandeiliad gan Cynghorydd Mr Einion P Williams.**

**11.2 Cafwyd adroddiad cyfarfod Un Llais Cymru Cangen Mon oddiwrth y Cynghorydd Mr Raymond Evans.**

**11.3 Ymgynghoriad Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd – nodwyd er gwybodaeth – manylion llawn ar wefan y Cyngor Sir – dyddiad cau 22ain Chwefror 2018.**

**11.4 Ymgynghoriad Trydydd Pont Draws y Fenai ar gyfer yr A55 – dyddiad cau – 9 Mawrth.**

**11.5 Cynigion Gafael a Troseddu Perfformiad Gwael y Sector Gwastraff – manylion gan y Clerc petai unrhyw aelod angen ymateb erbyn y dyddiad cau – 26 Mawrth 2018.**

**11.6 Gohebiaeth oddiwrth Un Llais Cymru ynghylch a gafael ag unigrwydd ymysg pobl hyn – manylion llawn gan y Clerc.**

**11.7 Gohebiaeth diweddaraf ar waith datblygu o wella Adran ED, Ysbyty Gwynedd.**

## 12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 27ain CHWEFROR 2018.

12.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu ac fe clowyd y cyfarfod am 9:15yh.

**Arwyddo…….....…….……Cadeirydd….....……..Dyddiad.**